

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 36A Brychdyn, Sir y
Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros
Dro) 2018

The A55 Trunk Road (Junction
36A Broughton, Flintshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2018

Gwnaed 11 Ionawr 2018

Made 11 January 2018

Yn dod i rym 22 Ionawr 2018

Coming into force 22 January 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A55 Chester to Bangor Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Ionawr 2018 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36A Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018.

1. This Order comes into force on 22 January 2018 and its title is The A55 Trunk Road (Junction 36A Broughton, Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 22 Ionawr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A55 Chester to Bangor link road from its junction with the A5104 Broughton Roundabout to, and including the Junction 36A Broughton Roundabout, and the Spur road from the Junction 36A Roundabout to the Broughton Retail Park, Broughton in the County of Flintshire;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1 and paragraph 30(1) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now conferred upon the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw ffordd gyswllt yr A55 Caer i Fangor o’i chyffordd â Chylchfan Brychdyn yr A5104 i Gylchfan Brychdyn wrth Gyffordd 36A a chan gynnwys y gylchfan honno, a’r ffordd gangen rhwng Cylchfan Cyffordd 36A a Pharc Manwerthu Brychdyn, Brychdyn yn Sir y Fflint.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd.

Dirymiad

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36A Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017(2) wedi eu dirymu.

Cymhwys

5. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Ionawr 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 on 22 January 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibition

3. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed in the lengths of the trunk road.

Revocation

4. The A55 Trunk Road (Junction 36A Broughton, Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2017(2) is revoked.

Application

5. The prohibition in article 3 shall apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration for this Order shall be 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

11 January 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 36A, BRYCHDYN, SIR Y FFLINT)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn tra bo gwaith yn cael ei wneud ar Gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 36A, Brychdyn, Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar hyd ffordd gyswllt yr A55 o'i chyffordd â Chylchfan Brychdyn yr A5104 i Gylchfan Brychdyn wrth Gyffordd 36A a chan gynnwys y gylchfan honno, a'r ffordd gangen rhwng Cylchfan Cyffordd 36A a Pharc Manwerthu Brychdyn, Brychdyn yn Sir y Fflint.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymuno â'r A55 yw mynd ar hyd yr A5104 tua'r dwyrain wrth Gylchfan Brychdyn a pharhau i Gyffordd 36, Cyfnewidfa Warren. Bydd cerbydau sy'n teithio tua'r de o Barc Manwerthu Brychdyn yn dilyn y llwybr dargyfeirio ar hyd yr A5104 i Gylchfan Brychdyn. Bydd arwyddion traffig hefyd yn dargyfeirio pob cerbyd sy'n dymuno mynd i ddatblygiad tai Brychdyn ac oddi yno.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 22 Ionawr 2018 ac y byddant yn gweithredu'n ysbeidiol am 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i'r gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 36A,
BROUGHTON, FLINTSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary whilst works are undertaken on or near the A55 trunk road at Junction 36A, Broughton, Flintshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding along the A55 link road from its junction with the A5104 Broughton Roundabout to, and including the Junction 36A Broughton Roundabout, and the Spur road from the Junction 36A Roundabout to the Broughton Retail Park, Broughton in the County of Flintshire.

The alternative route for all eastbound vehicles wishing to join the A55 is via the eastbound A5104 at Broughton Roundabout and continue to Junction 36, Warren Interchange. Southbound vehicles from the Broughton Retail Park will follow the diversion route along the A5104 to Broughton Roundabout. All vehicles wishing to access or egress the Broughton housing development will also be diverted by traffic signs.

The prohibition, which will be signed accordingly, is expected to operate intermittently from 00:01 hours on 22 January 2018 for a maximum duration of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

